# Llwyddodd Ciwpid i daro’r nod nid unwaith, na dwywaith, ond tair gwaith yn Y Rhyl ar Ddydd Sant Ffolant.

Dangosodd siopau a busnesau eu cariad tuag at y dref trwy gymryd rhan mewn cystadleuaeth arbennig i ddathlu’r diwrnod.

Yng nghystadleuaeth addurno ffenestri Caru Rhyl, a drefnwyd gan Gyngor Tref Y Rhyl, gwelwyd busnesau yn donnau coch o serch.

Aelodau o’r Cyngor Tref a feirniadodd y gystadleuaeth. Aeth y wobr gyntaf i For Every Occasion ar Ffordd Russell a’r ail wobr i Alakazam ar Stryd y Dŵr. Rhoddwyd y drydedd wobr i The Fuller Monty, Ffordd Wellington.

Dywedodd y Cynghorydd Joan Butterfield o’r Rhyl “Cyflymodd curiad ein calonnau o weld yr ymdrech a’r creadigrwydd a ddangoswyd wrth gynllunio’r ffenestri. Roedd pob un o’r arddangosiadau’n cynnwys y slogan Caru Rhyl ac roedd y safon mor uchel fel ei bod hi’n anodd inni ddod i’r penderfyniad terfynol. Roedden ni wrth ein bodd i weld cymaint o fusnesau a siopau’n dangos yr awydd i gymryd rhan.”

Enillodd y dair siop fuddugol wobrau ariannol a roddwyd gan Fforwm Cyngor Tref Y Rhyl a chafodd pawb a gymerodd ran wobrau yn ogystal.